# Cost Cynulliad Cenedlaethol Cymru

8 Mai 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Ebrill, pan wnaethoch ofyn am y canlynol:

1. *Rhowch ddadansoddiad o'r gost ar gyfer cynnal y Cynulliad yn flynyddol.*
2. *Rhowch gopi o gyfrifon archwiliedig y llynedd.*
3. *A allwch gynnwys cyflogau Aelodau'r Cynulliad, eu cynorthwywyr clerigol, pob cynorthwyydd clerigol sy'n ymwneud â rheoli'r adeilad, a gwaith y Cynulliad o ddydd i ddydd.*
4. *A allwch gynnwys cost ymgyngoreion ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir yn benodol i gynghori'r Cynulliad allanol, boed yn gyngor i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd neu i Aelodau/Gweinidogion unigol*

Ceir ymateb i'ch cwestiynau isod.

1. *Rhowch ddadansoddiad o'r gost ar gyfer cynnal y Cynulliad yn flynyddol.*

Mae'r ffigurau y gofynnwyd amdanynt yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Gan fod yr wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

2. *Rhowch gopi o gyfrifon archwiliedig y llynedd.*

Gweler yr ateb i gwestiwn 1.


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales



**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

3. *A allwch gynnwys cyflogau Aelodau'r Cynulliad, eu cynorthwywyr clerigol, pob cynorthwyydd clerigol sy'n ymwneud â rheoli'r adeilad, a gwaith y Cynulliad o ddydd i ddydd.*

Rwyf wedi rhannu fy ymateb yn dair rhan.

*3a. Cyflogau Aelodau'r Cynulliad a'u cynorthwywyr clerigol (staff cymorth)*

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Caiff y cyfanswm a wariwyd ar gyflogau Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth ei gyhoeddi yn ein Hadroddiadau Blynyddol a Datganiadau o Gyfrifon. Gweler yr adran '*Nodiadau i'r Cyfrifon*' (tudalen 110) o Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015-16. Caiff Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon 2016-17 eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf.

*3b. Cyflogau cynorthwywyr clerigol (staff y Cynulliad) sy'n ymwneud â rheoli'r adeilad.*

Yn ystod 2015-16, gwariwyd £940,000 ar gostau staffio'r tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau.

*3c. Cyflogau cynorthwywyr clerigol (holl staff Comisiwn y Cynulliad) sy'n ymwneud â gwaith y Cynulliad o ddydd i ddydd.*

Y corff corfforaethol, sef Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a grëwyd drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), sy'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad. Unwaith eto, caiff cost flynyddol y staff sy'n ymwneud â gwaith y Cynulliad o ddydd i ddydd ei chyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol (linc uchod).

Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

4. *A allwch gynnwys cost ymgyngoreion ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir yn benodol i gynghori'r Cynulliad allanol, boed yn gyngor i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd neu i Aelodau/Gweinidogion unigol*

Eto, rwyf wedi rhannu fy ymateb yn dair rhan.

*4a. cost ymgyngoreion ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir yn benodol i gynghori'r Cynulliad.*

Ar gyfer y cyfnod 2015-16, gwariwyd £60,000 ar ymgynghoriaeth.

Mae'r Comisiwn wedi penodi cynghorwyr i herio Comisiwn y Cynulliad mewn ffordd annibynnol ac adeiladol. Er nad ydynt yn ymgynghorwyr yng ngwir ystyr y gair, caiff eu tâl ei gyhoeddi yn ein hadroddiad blynyddol (linc uchod) o dan yr adran – *Y Cynghorwyr annibynnol ac aelodau'r Pwyllgor.*

*4a. cost ymgyngoreion ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir yn benodol i gynghori un o Aelodau'r Cynulliad.*

Gall yr Aelodau ddefnyddio adnoddau i gyflogi staff ac i redeg swyddfeydd yn eu hetholaethau er mwyn ymdrin â phroblemau ac achosion a godir gan y rhai y maent yn eu cynrychioli. Gallant hefyd hawlio ad-daliad am unrhyw gostau y bydd yn rhaid iddynt eu hysgwyddo os bydd angen iddynt aros oddi cartref dros nos i ymgymryd â'u dyletswyddau swyddogol fel Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r rheolau ynghylch yr hyn y gallant ei hawlio i'w gweld yn y 'Penderfyniad' Penderfyniad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gyflogau a Lwfansau 2016.

Bydd hawliadau yn gyffredinol yn dod o dan un o dri math lwfans:

- Lwfans Costau Swyddfa (h.y. treuliau swyddfa sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad)
- Lwfans Costau Ychwanegol (h.y. treuliau wrth aros dros nos o'u prif gartref at ddibenion cyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad)
- Lwfans Costau Teithio (h.y. treuliau teithio Aelodau Cynulliad oherwydd eu dyletswyddau mewn perthynas â’r Cynulliad)

Ceir lwfans penodol ar gyfer 'Ymgynghorwyr' o dan y categori 'Lwfans costau swyddfa'. Caiff treuliau eu cyhoeddi bob chwarter a gallwch chwilio drwy gronfa ddata lwfansau Aelodau'r Cynulliad gan ddilyn y cyfarwyddiadau isod.

1. Cliciwch i ddewis y flwyddyn a'r mis(oedd). (Os na ddewiswch fis, bydd yn dod o hyd i'r flwyddyn gyfan).

1. Click to choose the year and month(s). (If you do not select a month, it will return a search for the whole year). **Help**

Year: Please Select From Month: Please Select To Month: Please Select

2. Cliciwch i ddewis Aelod Cynulliad. (Os na chliciwch ar Aelod penodol, bydd yn dod o hyd i bob Aelod.)

2. Click to choose an Assembly Member. (If you do not click on a particular Assembly Member, it will return a search for all Members.*) **Help**

3. Cliciwch i ddewis y math o lwfans yr hoffech ei weld - *Lwfans Costau Swyddfa*.

3. Click to choose the allowance you would like to view. (If you do not select a particular allowance, it will return a search for all types of allowances.*) **Help**

- ☐ Office Costs Allowance
- ☐ Mileage
- ☐ European Travel
- ☐ Family Travel
- ☐ Additional Costs Allowance
- ☐ Party Leaders' Allowance (Office Costs)
- ☐ UK Travel
- ☐ Cardiff Overnight Stay Allowance
- ☐ Office Refurbish 2016
- ☐ Office Start Up 2016
- ☐ Centrally funded security costs 2016 Members

4. Cliciwch i ddod o hyd i'r math o wariant - *Ymgynghoriaeth*.

4. Click to find the type of expenditure (If you do not select a particular expenditure, it will return a search for all expenditures.*) **Help**

| | | |
|---|---|---|
| ☐ Accountancy Services | ☐ Office Cleaning | ☐ Other Advertising |
| ☐ Administrative Support | ☐ Office Cleaning Materials | ☐ Parking |
| ☐ Books | ☐ Office Contents Insurance | ☐ Photocopying |
| ☐ Business Cards | ☐ Office Electricity | ☐ Photography |
| ☐ Computer Maintenance | ☐ Office Equipment - Lease | ☐ Postage |
| ☐ Conference Fees | ☐ Office Equipment - Purchase - IT | ☐ Presswork |
| ☐ Consultancy | ☐ Office Equipment - Purchase - Other | ☐ Recruitment Advertising |
| ☐ Disability Adaptions | ☐ Office Gas | ☐ Recycling |
| ☐ Event Stand | ☐ Office Legal Expenses | ☐ Software Program |
| ☐ Eye Test/Glasses | ☐ Office Maintenance | ☐ Staff Recruitment Advertising |
| ☐ Locksmith | ☐ Office Removal Costs | ☐ Subscriptions |
| ☐ Members Training | ☐ Office Rent | ☐ Support Staff Training |
| ☐ Membership Fees | ☐ Office Rent Service Charges | ☐ Surgery Advertising |
| ☐ Mobile Telephone | ☐ Office Security | ☐ Surgery Room Rental |
| ☐ Newsletters | ☐ Office Stationery | ☐ Tickets |
| ☐ Newspapers/magazines | ☐ Office Sublet | ☐ Translation |
| ☐ Office Business Rates | ☐ Office Telephone | ☐ Waste Collection |
| ☐ Office Central Furniture | ☐ Office TV licence | ☐ Website |
| ☐ Office Cleaner Salary | ☐ Office Water Rates | |

Cliciwch 'Find' ar waelod y dudalen.

Nodwch fod treuliau'n cael eu cyhoeddi dri mis yn ddiweddarach. Gellir tynnu data personol allan lle byddai'n mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data yn Neddf Diogelu Data 1998.

Hefyd, mae'r Bwrdd Taliadau yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad hawlio hyd at *£2,500 y flwyddyn er mwyn comisiynu darnau penodol o waith ymchwil gan ffynonellau allanol ac i ganiatáu i Aelodau ymgysylltu â'u hetholwyr. Roedd yr adborth gan yr Aelodau sydd wedi defnyddio'r Gronfa Polisi ac Ymchwil yn y gorffennol yn gadarnhaol a chytunodd y Bwrdd i fonitro faint oedd yn ei defnyddio a thrafod opsiynau ar gyfer ei gwella.*
Mae enwau Aelodau'r Cynulliad sydd wedi defnyddio'r gronfa hon, ac at y diben hwnnw, yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol – gweler *adran*

*1.13 y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu*. Y cyfanswm a wariwyd yn 2015-16 oedd £17,048.82.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

*4c. cost ymgyngoreion ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir yn benodol i gynghori Gweinidog.*

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i chi yn uniongyrchol gan fod ganddi gyfrifoldeb dros faterion Gweinidogol.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF